***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

# Deddf Seilwaith (Cymru) 2024

**2024 dsc 3**

## RHAN 6

GORCHMYNION CYDSYNIAD SEILWAITH

*Gwneud newidiadau i orchmynion cydsyniad seilwaith a'u dirymu*

### 91 Y weithdrefn: newid a dirymu gorchmynion cydsyniad seilwaith

(1) Mewn perthynas â chais o dan adran 90—

(a) rhaid iddo gael ei wneud ar y ffurf a bennir gan reoliadau;

(b) rhaid iddo gael ei wneud yn y modd a bennir mewn rheoliadau;

(c) rhaid i wybodaeth o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau fynd gyda'r cais.

(2) Pan fo gan berson fuddiant ym mheth, ond nid y cyfan, o'r tir y mae gorchymyn cydsyniad seilwaith yn ymwneud ag ef, caiff y person wneud cais o dan adran 90 mewn cysylltiad â hynny o'r gorchymyn cydsyniad ag sy'n effeithio ar y tir y mae gan y person fuddiant ynddo yn unig.

(3) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn ar gyfer newid neu ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith a chaiff (ymhlith pethau eraill) wneud darpariaeth ynghylch—

(a) y weithdrefn sydd i'w dilyn cyn i gais o dan adran 90 gael ei wneud;

(b) gwneud cais o'r fath;

(c) y broses o wneud penderfyniad mewn perthynas ag arfer y pŵer a roddir gan adran 90(1);

(d) gwneud y penderfyniad ynghylch a ddylid arfer y pŵer a roddir gan adran 90(1) ai peidio;

(e) effaith penderfyniad i arfer y pŵer yn adran 90(1).

(4) Mae paragraffau (c) i (e) o is-adran (3) yn gymwys mewn perthynas ag arfer y pŵer a roddir gan adran 90(1)—

(a) ar gais o dan adran 90, neu

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

(b) heb i gais gael ei wneud (gweler adran 90(6)).

(5) Caiff rheoliadau o dan is-adran (3) roi swyddogaeth, gan gynnwys swyddogaeth sy'n ymwneud ag arfer disgresiwn, i unrhyw berson.

(6) Os yw gorchymyn cydsyniad seilwaith yn cael ei newid neu ei ddirymu wrth arfer y pŵer a roddir gan adran 90(1), rhaid i Weinidogion Cymru roi hysbysiad o'r newid neu'r dirymiad i—

(a) y ceisydd neu olynydd yn nheitl y ceisydd,

(b) y person a wnaeth y cais o dan adran 90 (os yw'n wahanol i'r person a grybwyllir ym mharagraff (a)), ac

(c) unrhyw berson neu berson o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau.

(7) Os oedd yn ofynnol i orchymyn cydsyniad seilwaith gael ei gynnwys mewn offeryn statudol, rhaid i orchymyn sy'n newid neu'n dirymu'r gorchymyn cydsyniad seilwaith a wneir wrth arfer y pŵer a roddir gan adran 90(1) hefyd gael ei gynnwys mewn offeryn statudol.